**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA- P/CS/3044/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Tachwedd 2017

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant. Rwy'n ateb y llythyr yn rhinwedd fy mhenodiad yn ddiweddar fel y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.

Yn eich llythyr rydych yn gofyn nifer o gwestiynau, yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan Gomisiynydd Plant Cymru. Er hwylustod, rwyf wedi ymateb i bob un o'ch pwyntiau yn y drefn y cawsant eu cyflwyno yn eich llythyr.

**1. Hawliau Plant**

- **Byddai'r pwyllgor yn croesawu esboniad pellach o ran a fyddai eich datganiad nad oes 'dim tystiolaeth' y byddai dyletswydd gyffredinol ar sylw dyledus yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau yn berthnasol i ddyletswydd sylw dyledus Llywodraeth Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn glir ei hymrwymiad i hawliau plant drwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn y ddeddfwriaeth. Felly, mae'n rhaid i weinidogion roi sylw dyledus i hawliau plant wrth wneud eu penderfyniadau. Mae rheidrwydd arnom i roi sylw dyledus o ddechrau'r broses o ddatblygu polisi a deddfwriaeth, nid yw'n ystyriaeth unigol neu'n ymarfer blwch ticio. Felly, rwy'n disgwyl i swyddogion, fy nghydweithwyr a Gweinidogion y Cabinet weithredu'r ddyletswydd yn drylwyr a chyda meddwl agored, a gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae gosod y ddyletswydd hon ar Weinidogion Cymru yn sicrhau y rhoddir sylw dyledus i CCUHP ar lefel strategol ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer pob penderfyniad, gan gynnwys polisïau a deddfwriaeth.

- **Effaith y ddyletswydd sylw dyledus o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwerthusiad annibynnol, ffurfiol o'r Ddeddf. Mae cwmpas y gwerthusiad yn cael ei ystyried yn awr gan grŵp gwerthuso o randdeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector plant. Bydd y grŵp yn cyhoeddi cynllun gwerthuso cyn y Nadolig a bydd y gwerthusiad yn dechrau yn ystod hydref 2018 yn dilyn ymarfer caffael llawn Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Felly, ar y cam hwn, mae'n rhy gynnar imi wneud unrhyw sylwadau ar y mater penodol hwn, ond gall swyddogion roi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiol o'r Ddeddf.

- **Y sail ar gyfer sefyllfa safbwynt polisi presennol Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd sylw dyledus**

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw na fydd rhoi dyletswydd sylw dyledus gyffredinol ar staff rheng flaen ynddo'i hun yn sicrhau'r canlyniad dymunol, yn hytrach, byddai ond yn ychwanegu at faich gweinyddol y staff rheng flaen. Cred Llywodraeth Cymru mai'r dull mwyaf effeithiol o gyflawni ein nod cyffredin a'r canlyniad a ddymunir yw cydblethu hawliau'r plentyn yng nghyfansoddiad y ddeddfwriaeth.

**2. Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**

- **Rhowch amlinelliad o'ch barn ar ddylanwad Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar broses bresennol Llywodraeth Cymru o wneud penderfyniadau a datblygu polisïau**

Mae'r broses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i hymgorffori yn y prosesau o ddatblygu deddfwriaethau, polisïau newydd a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Mae'r Asesiadau hyn yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn elfen ganolog wrth wneud penderfyniadau neu ddatblygu polisïau. Er mai dyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant sydd gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, mae cyflwyno'r broses Asesu hon yn sicrhau cysondeb ymarferol ar draws y Llywodraeth. Cynhaliodd yr Athro Simon Hoffman o Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc werthusiad o'r broses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn 2015, ac argymhellodd y dylid ei symleiddio. O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a threialu'r defnydd o dempled Asesu wedi'i symleiddio. Rydym hefyd yn ystyried a oes cyfle i symleiddio pob un o'n prosesau asesiadau o effaith, er mwyn sicrhau bod ansawdd yr asesiadau o effaith yn cael eu gwella a'u hintegreiddio gyda chyfarwyddyd parhaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- **Dangos diddordeb parhaus a gweithredol yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant drwy oes y Cynulliad hwn a chyfrannu mewn dialog ffurfiol gyda chi yn dilyn cyhoeddiad yr Adroddiad Cydymffurfiaeth o dan y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), i'w gyhoeddi yn Ionawr 2018**

Rwy'n croesawu diddordeb parhaus y Pwyllgor yn y broses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.

**3. Comisiynydd Plant Cymru**

- **Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech esbonio a ydych dal yn fodlon bod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru yn cydymffurfio ag egwyddorion Paris**

Rwy'n fodlon bod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru yn cydymffurfio ag Egwyddorion Paris. Er bod Comisiynydd Plant Cymru wedi'i phenodi gan Brif Weinidog Cymru ac yn swydd sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, mae ei statws fel sefydliad annibynnol ar gyfer hawliau dynol yn hollbwysig i'w gweithrediad a'i natur ddiduedd. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu ei rhaglen waith (yn unol â rhwymedigaethau deddfwriaethol) a'i chynllun gwaith ei hun (gan gynnwys adolygiadau neu archwiliadau statudol) ac nid oes angen unrhyw gymeradwyaeth Gweinidogol arni. Yn ogystal, gall y Cynulliad graffu ar ei gwaith a'i dwyn i gyfrif.

**4. Y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd: plant a phobl ifanc**

- **Cadarnhad ynghylch a gynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'r Papur Gwyn 'Diogelu Dyfodol Cymru', (sydd fel arfer yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â chynigion deddfwriaethol), er mwyn ategu dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r broses Brexit (a rhagor o wybodaeth amdano os felly)**

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant am nad yw Diogelu Dyfodol Cymru yn ddogfen bolisi ffurfiol, yn hytrach mae'n alwad gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU fabwysiadu ein safbwyntiau. Nid yw'r safbwyntiau hyn yn ymrwymiadau polisi i'w cyflawni. Rwy'n rhagweld y gallai fod angen asesiadau ffurfiol ar rai llifoedd gwaith yn y dyfodol, wrth baratoi ar gyfer y trafodaethau ar Brexit a'u canlyniadau, a byddai hyn yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.

- **Diweddariad ar y gweithdai a'r ymgynghoriad ar-lein i gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc ar adael yr Undeb Ewropeaidd**

Mae'n hollbwysig bod plant a phobl ifanc yn derbyn cyfleoedd i wneud cyfraniad ystyrlon i'r broses o lunio safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar Brexit. Mae fy swyddogion yn edrych ar yr ymchwil cymdeithasol presennol ar y mater hwn, sy'n dangos beth y mae plant a phobl ifanc yn pryderu amdano. Rwy'n ymwybodol o'r ymchwil diweddar gan WISERD sy'n awgrymu bod rhai o'n pobl ifanc yng Nghymru yn teimlo'n rhwystredig nad ydynt wedi cael lleisio eu barn yng nghanlyniad Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn cynllunio ein proses ymgysylltu ein hunain yn awr, gan gynnwys cyfres o weithdai grwpiau ffocws gyda phobl ifanc ar hyd a lled Cymru, er mwyn inni allu cael dealltwriaeth wirioneddol o safbwyntiau plant a phobl ifanc ar y mater.

- **Diweddariad ar y datblygiadau i sefydlu'r grŵp cynghori o bobl ifanc yr addawyd**

O ran ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori Ewropeaidd, mae fy swyddogion yn cwblhau'r dulliau a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc i wneud hyn. Rwy'n disgwyl i'r trefniadau ar gyfer y grŵp cynghori pobl ifanc gael eu cymeradwyo yn fuan.

**5. Eiriolaeth**

- **Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cadarnhad o rôl Llywodraeth Cymru o ran monitro a yw awdurdodau wedi cyflwyno'r dull hwn yn llwyr, a oedd wedi'i dargedu ar gyfer mis Mehefin 2017 yn y cynllun gweithredu yr ydych yn cyfeirio ato fel tystiolaeth**

Nid yw eiriolaeth yn ddarpariaeth newydd ar gyfer awdurdodau lleol, mae'n ddyletswydd statudol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y cynnig gweithredol yn ofyniad newydd, a dyna pam ein bod wedi gwneud ymrwymiad i ddarparu'r cyllid ychwanegol o hyd at £550,000 sy'n cynnwys talu am gost y cynnig gweithredol. Mae'r Fframwaith Eiriolaeth newydd wedi'i gyflwyno ar draws Cymru gyfan ers mis Gorffennaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda'i phartneriaid er mwyn sicrhau dull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer eiriolaeth i ysgogi gweithrediad a monitro cynnydd. Cynhelir cyfarfod nesaf yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth ar 16 Tachwedd er mwyn adolygu'r sefyllfa genedlaethol a bydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn darparu diweddariad am y cynnig gweithredol a'r gwaith monitro hyd yma. Yn dilyn hyn, bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant yn gyfrifol am eiriolaeth, gan gynnwys y gwaith monitro, a byddant yn edrych yn ehangach na'r dull gweithredu cenedlaethol er mwyn ystyried y gwasanaethau eiriolaeth iechyd ac addysg.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yr eiddoch yn gywir



**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Minister for Children and Social Care